

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

Atodiad A

Adolygiad Thematig: Cynllun Gwella : 2017-18

BIP CAERDYDD A'R FRO

Adran: Offthalmoleg

Dyddiad arolygiad: 2015/16

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
1	Materion cysylltiedig â'r broses atgyfeirio cleifion (Atgyfeirio Cleifion - Proses Atgyfeirio)	Rhaid i bob parti (Llywodraeth Cymru, NWIS, Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmoleg a Byrddau Iechyd) weithio gyda'i gilydd tuag at gyflwyniad system gofnodi/atgyfeirio cleifion electronig o optometryddion yn uniongyrchol i ofal eilaidd.	1 i) Gofynnodd BI y Brifysgol bod NWIS yn dewis Specsavers Caerdydd fel eu safle peilot ar gyfer e-atgyfeiriadau gan mai'r safle hwn yw ein prif atgyfeiriwr i wasanaethau gofal eilaidd (yn hytrach na Boots a ddewiswyd gan NWIS ac sy'n atgyfeiriwr isel iawn a ddim yn ymgysylltu â'r rhaglen). Mae NWIS wedi gwrthod y cais hwn (20 Ionawr 2017). Felly mae BI y Brifysgol yn edrych ar opsiynau eraill.	Gareth Bulpin/Fiona Jenkins	Mawrth17	
			1ii) Yn ogystal, mae'r grŵp llywio gofal llygaid cenedlaethol wedi cychwyn ar y gwaith o edrych ar ddatblygu EPR ar gyfer llygaid, er na fydd hyn disgwyl i hyn gael ei weithredu tan 2018.	Bwrdd llywio gofal llygaid cenedlaethol/NWIS	Ebrill 18	
2	Amlygodd Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol y Cyngor Iechyd	Dylai Byrddau Iechyd drwy Grwpiau Gofal Llygaid Lleol weithio gydag optometryddion i sicrhau bod cleifion yn cael digon o wybodaeth hygyrch	2. Bydd yr arweinydd Optometreg yn adolygu'r trefniadau presennol ac yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â grwpiau cleifion a'r trydydd sector.	David O Sullivan	Mehefin 17	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
	Cymuned (CIC) fod rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros eu hatgyfeiriad. (Atgyfeirio Cleifion - Proses Atgyfeirio)	ynglŷn â'r rheswm eu bod yn cael eu hatgyfeirio at ofal eilaidd a sicrhau bod cleifion yn cael eu clywed ac yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â'u gofal.				
3	Ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon i lwybr mynediad cyflym (Atgyfeiriadau Cleifion - Ansawdd Atgyfeiriadau)	3 A) Dylai Byrddau Iechyd ystyried dulliau ar gyfer mireinio atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod y cleifion ar y llwybr gofal mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithlon, gan osgoi ymweliadau dianghenraid.	3 A) Ailgynllunio ac archwilio'r llwybr fel rhan o'r cynllun gwella gwasanaeth BIG3	Ruth Jordan/ David O Sullivan	Tachwedd 16 – Mehefin 17	
		B) Dylai Byrddau Iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunydd addysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg optometryddion ac aelodau staff perthnasol eraill o lwybrau atgyfeirio	3 B) Sesiynau hyfforddiant gydag optometryddion	David O Sullivan	Cychwyn Tachwedd 16 gyda rhaglen hyfforddi barhaus wedi'i threfnu	
		C) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu i optometryddion yn ôl yr angen ynglŷn ag ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir er mwyn sicrhau dysg.	3 C) Sesiynau hyfforddiant gydag optometryddion	David O Sullivan	Cychwynnwyd Tachwedd 16 gyda rhaglen hyfforddi barhaus wedi'i threfnu	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
4	Diffyg adborth yn cael ei ddarparu i optometryddion ar ôl atgyfeirio a rhyddhau cleifion. (Atgyfeirio Cleifion - Cyfathrebu ar ôl atgyfeirio) (Rhyddhau claf - Ansawdd y wybodaeth)	A) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod adborth am ddiagnosis a chynllun triniaeth yn cael ei ddarparu i'r optometryddion sy'n atgyfeirio ar ôl bob atgyfeiriad	4A) Yn archwilio potensial ar gyfer system reoli cleifion er mwyn galluogi cyfathrebu'n ôl i'r optometrydd sy'n atgyfeirio, (yn hytrach na dim ond y Meddyg Teulu) er mwyn rhoi adborth amserol. Os yw hyn yn bosibl, datblygu cynllun gweithredu er mwyn symud ymlaen. Os oes angen gwaith datblygu, datblygu cynllun ar gyfer y gwaith hwn.	Phil Clee	Mawrth17	
		B) Rhaid i'r optometryddion ddefnyddio'r ffurfiol atgyfeirio a sicrhau bod eu henwau a chyfeiriad eu practis yn ddarllenadwy.	4 B) I gael ei gynnwys yn yr hyfforddiant (Cam 3 B a 3C)	David O Sullivan	Dechreuodd Tachwedd 16 gyda rhaglen hyfforddi barhaus wedi'i threfnu	
		C) Rhaid i fyrddau iechyd/llywodraeth sicrhau bod systemau'n cael eu cyflwyno i wella swm y wybodaeth sydd ar gael i optometryddion ynglŷn â chleifion sydd wedi eu rhyddhau o ofal eilaidd.	4Ci) Camau'r BILI wedi eu cynnwys yng Ngham 4 A	Phil Clee	Mawrth 17	
			4Cii) Camau LIC wedi eu cynnwys o fewn galluogi caffael a defnyddio EPR (Cam1ii)	LIC/NWIS	Ebrill 18	
5	CIC yn adrodd am bryderon cysylltiedig â'r	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol ynglŷn	5. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wybodaeth dda i gleifion. Fodd bynnag bydd Archwiliad yn cael ei gynnal er	Ymgynghorwyr Offthalmoleg	Medi 2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
	diffyg gwybodaeth a ddarperir o fewn gofal eilaidd cyn triniaeth (Atgyfeiriadau Cleifion - Cyfathrebu ar ôl Atgyfeirio)	â'u cyflwr a chynllun gofal arfaethedig cyn unrhyw archwiliad na thriniaeth. Dylai hyn gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gydsyniad ar sail gwybodaeth.	mwyn sicrhau bod cleifion yn teimlo fod ganddynt ddigon o wybodaeth am eu cynllun gofal a'u triniaeth a bod hyn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gydsyniad ar sail gwybodaeth.	drwy eu rhaglen archwilio		
6	Pryderon cysylltiedig â monitro sefydlog ar gyfer cleifion dilynol (Amserlen Triniaeth - Targedau)	A) Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall y Systemau Gweinyddu Cleifion ddarparu data am y bwlch rhwng apwyntiadau dilynol a argymhellwyd gan glinigwyr a'r bwlch gwirioneddol rhwng apwyntiadau drwy'r llwybr gofal.	6 A) Tîm Offthalmoleg i weithio gyda'r tîm TG i benderfynu a oes modd i PMS gyflwyno'r ymarferoldeb hwn	Denis Williams a Phil Clee	Mawrth17	
		B) Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i'r cleifion (newydd neu ddilynol) hynny sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael.	6 Bi) Gwaith yn cael ei arwain gan Dr Graham Shortland yn genedlaethol ar ran y cyfarwyddwyr iechyd, er mwyn rhoi sylw i'r argymhelliad hwn mewn perthynas â blaenoriaethu. 6 Bii) Yn ogystal, datblygu ODTC a mentrau a arweinir gan nyrsys er mwyn cynyddu'r capasiti i ymgynghorwyr weld y cleifion hynny sydd angen gweld ymgynghorydd fwyaf.	Graham Shortland Mike Bond/Denis Williams a PCIC	Rhagfyr 16- Mehefin 17 Ionawr 2017- Medi 2017	
		C) Rhaid i dimau clinigol ddogfennu'r drefn ddilynol a ddewisir ar gyfer bob achos yn eglur. Dylid gwneud hyn yn gyson, yn unol â'r protocolau y	6 C) Cael ei gofnodi drwy fodiwl cleifion allanol ymgynghorwyr PMS, ond angen hefyd gwaith ychwanegol ar wella gwasanaeth cleifion allanol, a fydd yn cael ei reoli gan y bwrdd clinigol meddygol fel rhan o'r rhaglen	Denis Williams/ Sean O Keefe	Medi 2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
		cytunwyd arnynt. Dylid diwedddaru'r claf ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r cynllun	gwella gofal llygaid (BIG 3)			
7	Diffyg o adrodd am ddigwyddiadau cysylltiedig â pholisi niwed i'r claf LIC (Adrodd am Ddigwyddiadau)	A) Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau er mwyn canfod patrymau potensial sy'n rhoi rhybudd cynnar o fethiannau mwy difrifol yn y system	7A) Atgoffa aelodau staff o'r gofynion adrodd am ddigwyddiadau a sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hadolygu fel rhan o agenda ansawdd a diogelwch ar gyfer y bwrdd clinigol meddygol.	Clare Wade	Mai 17	
		B) Ar yr achlysuron pan fo digwyddiadau, yn unol â pholisi LIC cysylltiedig â niwed i'r claf, rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi fel Digwyddiadau Anffafriol Difrifol.	7B) Sicrhau bod adrodd i LIC am ddigwyddiad offthalmoleg yn cydymffurfio â pholisi Digwyddiadau Anffafriol Difrifol.	Carol Evans (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio)	Ionawr 17	
8	Diffyg capasiti/Breuder gwasanaethau oherwydd gorddibyniaeth ar ymgynghorwyr. Materion cysylltiedig â diffyg capasiti, recriwtio a diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau. (Triniaeth - Capasiti)	A) Rhaid i Fyrddau Iechyd fod yn flaenweithgar wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gweithlu sy'n ymdrechu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yng nghapasiti presennol y gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn lliniaru'r peryglon i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio cynyddu capasiti i'r eithaf drwy wneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau'r aelodau staff meddygol ac anfeddygol sydd	8A) Cynlluniau ar gyfer y gweithlu'n cael eu datblygu'n unol â chynlluniau IMTP ar gyfer gofal llygaid ac fel rhan hefyd o waith cenedlaethol ar gynllunio'r gweithlu gofal llygaid - bwriadu mabwysiadu egwyddorion doeth ar gyfer y gweithlu)	Arweinwyr gweithlu PCIC a'r Bwrdd Clinigol Meddygol	Ionawr - Mawrth 17	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
		ar gael, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael.				
		B) Rhaid i'r byrddau iechyd ystyried ffyrdd o weithio'n agosach â chydweithwyr o'r maes gofal sylfaenol. Er enghraifft, darparu offer (a hyfforddiant) i bractisiau Optometreg er mwyn eu galluogi i fireinio atgyfeiriadau a/neu asesiadau o gleifion sefydlog. Mae angen gwneud hyn mewn modd trefnus a strategol dan reolaeth y bwrdd iechyd.	8B) Datblygu cynlluniau ar gyfer ODTC a gwella'r elfen ofal sylfaenol o'r llwybrau fel rhan o weithrediad y cynllun gofal llygaid a ffrydiau gwaith BIG 3	Mike Bond, Denis Williams, Rhian Bond, David Osullivan, Jane Brown	Chwefror 17-Medi 2017	
9	Dylai byrddau iechyd ddysgu o'r profiadau ar ôl cynnydd a wnaed mewn meysydd eraill (Triniaeth - Mentrau i wella Capasiti)	A) Rhaid i fyrdau iechyd sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llwyr â Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg er mwyn cynorthwyo dysgu ar y cyd gan/gyda staff mewn meysydd eraill.	9A) Mae gan Gaerdydd a'r Fro bresenoldeb uwch ar Fyrdau Gofal wedi'i Gynllunio Rhanbarthol bellach, gan gynnwys cynrychiolaeth ar y Bwrdd Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, rheolwr Cyfarwyddiaeth a'r cynghorydd Optometreg	Mike Bond, Den Williams / David O Sullivan	Ionawr 2017	
		B) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen datblygu ymagweddau pellach er mwyn annog dysgu ar y cyd rhwng byrddau iechyd, yn ogystal â dulliau mwy integredig o fynd i'r afael â themâu/materion	9B) Camau LIC, ond yn cael sylw gan grŵp iechyd llygaid y bwrdd gofal a gynllunnir cenedlaethol lle cynrychiolir Byrddau Iechyd Lleol. Cam ar gyfer OSAG hefyd o bosibl	Cam LIC	Medi 2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
		cyffredin sy'n digwydd dros Gymru. Er enghraifft, cyflwyno gweithwyr anfeddygol a all roi pigladau.				
10	Pwysigrwydd swyddogaeth Cydlynnydd AMD (dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint) (Staff Cymorth y Gwasanaeth - Cydlynwyr AMD)	O ganlyniad i ofynion y swyddogaeth a phwysigrwydd darparu dilyniant mewn gofal, dylai'r Byrddau Iechyd ystyried a yw un Cydlynnydd Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD) yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid	10. Cydlynnydd Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD) wedi ei gyflogi. Adnoddau ychwanegol wedi eu darparu er mwyn sicrhau dilyniant yn ystod gwyliau blyneddol.	Denis Williams	Ionawr 2017	
11	Swyddog Cyswllt Clinig Llygaid (ECLO) –staff eraill ddim yn gwneud digon o ddefnydd o'r swyddogaeth (Staff Cymorth y Gwasanaeth - Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	Rhaid i Fyrdau Iechyd sicrhau bod yr aelodau staff i gyd yn ymwybodol bod gwasanaeth ECLO lleol ar gael er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad i gyngor a chymorth perthnasol	11. Ymgysylltiad da gyda ECLO, lle i swyddfa yn y prif leoliad i gleifion allanol. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Archwilio/Cyfarwyddiaeth 2017	Denis Williams	Ionawr 2017	
12	ECLO – capasiti/cyflenwad staff cyfyngedig (Staff Cymorth y Gwasanaeth - Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod ECLO ar gyfer eu clinigau gofal llygad bob amser a dylid ystyried a yw un ECLO yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	12. Cyllid 2017-18 ar gyfer ECLO angen ei ddiogelu	Mike Bond/ Tina Bayliss	Mawrth2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
13	Pryderon a fynegwyd gan aelodau staff ynglŷn â diffyg prosesau er mwyn cyflwyno sylwadau/ awgrymiadau i reolwyr y bwrdd iechyd/ (Staff Cymorth y Gwasanaeth - Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod dulliau ar waith er mwyn galluogi pob aelod o staff i fynegi unrhyw bryderon/awgrymiadau ynglŷn â gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaethau a allai fod ganddynt. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu i unigolion yn rheolaidd	13 i) Mae gan BI y Brifysgol raglen o ymgysylltiad staff (Gwerthoedd ar Waith) sydd wedi casglu mewnbwn o 3000 ffynhonnell. Mae sesiynau adborth ar waith yn ogystal ag offer i gynorthwyo mynegi barn. Drwy adborth a arweiniwyd gan dîm Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd y Brifysgol.	Clare Radley	Ionawr – Chwefror 17	
			13 ii) Yn ogystal, mae egwyddorion BIG 3 yn cynnwys ymgysylltiad â chlinigwyr ac annog adborth er mwyn gwella gwasanaethau.	Ymgysylltiad parhaus drwy'r bwrdd clinigol meddygol, Alun Tomkinson, Mike Bond/ Denis Williams	Chwefror 17	
14	Angen mwy o eglurder mewn perthynas â datblygu swyddogaeth yr optometrydd (Swyddogaeth yr optometrydd)	Er mwyn galluogi defnydd mwy effeithiol o optometryddion, rhaid i Lywodraeth Cymru roi eglurder i fyrddau iechyd mewn perthynas â threfniadau digollediad, adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwysterau a mecanweithiau cyfathrebu.	14. Cam LIC. A gweithrediad dilynol gan Fwrdd Iechyd y Brifysgol	Cam LIC	Aros am amserlen LIC	
15	Angen defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti (HDHB er enghraifft) a lleihau'r baich ar	Dylai'r byrddau iechyd ystyried defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu'r capasiti sydd ar gael a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod materion yn cael	15 i) Byddir yn datblygu cynlluniau capasiti a galw a chanfod y bwch capasiti, a'r cyfuniad o sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn llenwi unrhyw fwch a ganfyddir.	Bwrdd clinigol meddygol a PCIC	Mawrth17	
			15ii) Byddir yn chwilio am eglurder gan LIC ynglŷn â digollediad, cyllido ac elfennau eraill	Fiona Jenkins	Ebrill 17	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
	ofal eilaidd (Defnyddio optometryddion)	eu hegluro ynghylch trefniadau digollediad, adnoddau a chyllid, hyfforddiant a chyfathrebu, ar gyfer optometryddion.	yn ôl yr angen (Cam 14 uchod)			
16	Nid yw cleifion bob amser yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad golwg gwan cychwynnol gan aelodau staff eilaidd. (Defnyddio optometryddion)	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod yr aelodau staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd atgyfeirio bob claf cymwys at optometrydd achrededig er mwyn cael asesiad o olwg gwan.	16. Fel rhan o'r galw a'r capasiti ac ailgynllunio'r gwasanaeth, mae gwaith wedi dechrau gyda'r optometrydd arweiniol er mwyn datblygu defnydd pellach o optometryddion yn y gwasanaeth	David O Sullivan	Ionawr 2017	
17	Materion cysylltiedig â chysylltiadau gwael rhwng staff gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn effeithio ar y cynnydd ar ddatblygiadau i'r gwasanaeth (Cysylltiad Gofal Sylfaenol ac Eilaidd)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn cysylltu â'r Grŵp Gofal Llygaid lleol. Dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd a chael ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Un amcan allweddol yw gwella'r berthynas waith rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn meithrin mentrau gwaith ar y cyd.	17. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Cyfarfodydd rheolaidd, yn cael eu cofnodi a'u mynychu gan glinigwyr a rheolwyr gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Cynhaliwyd y diweddraf ar 13/01/17. Trefnwyd y nesaf ar gyfer 10/02/2017. Mae Cadeirydd Gweithredol grŵp gofal llygaid Caerdydd a'r Fro hefyd yn Gadeirydd y grŵp cenedlaethol.	Fiona Jenkins/ PCIC a Byrddau Clinigol Meddygol a phartneriaid.	Cyfarfodydd a drefnir bob chwarter.	
19	Pryderon yn cael eu codi ynglŷn â gwahanol feini prawf yn cael eu defnyddio gan wahanol ymgynghorwyr, sy'n golygu felly bod	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gan eu gwasanaeth AMD bolisi sy'n nodi meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion AMD 'gwlyb' yn unol â Chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod fyddai sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn hirach na'r	18. Gweithdy Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD) BIG3 yn cael ei gynnal ar 20/01/2017 yn edrych ar ailgynllunio'r llwybr. Bydd y meini prawf hyn yn cael eu trafod.	Ruth Jordan	Ebrill 2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
	rhai cleifion yn cael dilyniant heb fod angen neu'n cael eu trin heb lawer o fudd. (Rhyddhau Cleifion - Meini Prawf)	angen. Cynyddu'r capasiti ar gyfer y cleifion sydd fwyaf tebygol o elwa. Gallai cadw at y polisi fod yn rhan o archwiliad blynyddol y gwasanaeth.				
20	Systemau TG yn annigonol i gofnodi data defnyddiol. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o ddata capasiti a galw. (Systemau Rheoli Gwybodaeth - cynllunio)	Rhaid gwneud gwelliannau i systemau rheoli gwybodaeth mewn byrddau iechyd er mwyn galluogi cofnodi data capasiti a galw'n gywir (perfformiad) er mwyn galluogi cynllunio'r gweithlu'n fwy gwybodus ac er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a ddarperir yn seiliedig ar angen y claf.	20i) Bydd adolygiad o allu PMS i olrhain apwyntiadau dilynol yn cael ei gynnal (Cam 6A uchod)	Phil Clee	Mawrth 2017	
			20ii) Bydd defnyddio WPRS i alluogi e-atgyfeirio'n cynorthwyo gwelliannau o ran cofnodi'r galw. Fodd bynnag mae hyn yn gofyn bod optometreg yn atgyfeirio'n electronig, sy'n cael ei ystyried fel cam yn y camau (1i a 1ii)	Bwrdd llywio gofal llygaid cenedlaethol /NWIS	Ebrill 18	
			20 iii) Fodd bynnag, rhan sylweddol o'r broblem yw anghenion codio GIG Cymru ar gyfer cleifion allanol - mae angen edrych mwy ar hyn drwy'r Bwrdd gofal wedi'i gynllunio.	Peter Lewis Bwrdd gofal wedi'i gynllunio	Mehefin 17	
21	Materion cysylltiedig â rhannu gwybodaeth (Systemau Rheoli Gwybodaeth rhannu gwybodaeth)	Rhaid gwella'r mynediad i/rhannu gwybodaeth cleifion o fewn ardaloedd byrddau iechyd er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau	21. Bydd materion penodol yn cael eu hamlygu gan glinigwyr, a bydd materion na ellir eu datrys ac sydd angen cyngor cysylltiedig â Rheoli Gwybodaeth am rannu, yn cael eu codi gyda'r adran rheoli gwybodaeth gorfforaethol.	Sanjiv Banerjee/ Paul Rothwell	Ebrill 17	
22	Diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus gysylltiedig â gofal llygaid cyffredinol	Mae angen i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd ystyried sut y gall y cyhoedd fod yn fwy ymwybodol o	22.Mae hwn yn gynllun gweithredu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r cynllun cenedlaethol	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Rhagfyr 2017	

Adolygiad Offthalmoleg AGIC: Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro

	Argymhelliad	Gwybodaeth am yr argymhelliad	Camau'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen	Diweddariad ynglŷn â'r camau
	(Ymwybyddiaeth Gyhoeddus)	bwysigrwydd gwiriadau llygaid rheolaidd, materion gofal llygaid cyffredinol, yn ogystal â'r symptomau y dylid bod yn ymwybodol ohonynt sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd cael gofal iechyd heb oedi. Mae angen darparu mwy o wybodaeth am y gwahanol wasanaethau/gweithwyr proffesiynol sydd ar gael i weld/trin cleifion mewn perthynas â'u cyflyrau gofal llygaid.				

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (argraffu): Fiona Jenkins

Teitl: Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd a Chadeirydd Grŵp Gofal Llygaid Caerdydd a'r Fro

Dyddiad: 8/3/17